

Adweithyddion Niwclear Bach/Uwch



GWYBODAETH ALLWEDDOL

SAFLE:

Trawsfynydd

GWERTH Y PROJECT:

£2-3B (Amcangyfrif)

AMSERIAD/HYD Y PROJECT:

Ei adeiladu erbyn 2030

Trosolwg o'r project

Mae Bwrdd Parth Menter Eryri Llywodraeth Cymru yn cymryd agwedd ragweithiol at ddadrisgio a hwyluso datblygu tir ar safle datgomisiynu Trawsfynydd ar gyfer adeiladu adweithydd bach - boed hwnnw'n adweithydd bach (SMR) neu'n adweithydd uwch (AMR). Saif Trawsfynydd wrth ymyl llyn mewndirol (Llyn Trawsfynydd) yn Eryri yng ngogledd orllewin Cymru. Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear sy'n berchen ar y safle. Mae Llywodraeth Cymru'n hwyluso gwaith i ganiatáu datblygu'r safle at y dyfodol fel y gellir adeiladu adweithydd bach/adweithydd modiwlaid uwch yno, y cyntaf o'i fath. Amcangyfrifir y bydd yr adweithydd yn costio tua £2-3B a dywed ETI y gellir adeiladu adweithydd bach erbyn 2030.

Manylion am y dull datrys/gweithredu

Mae asesiadau wedi'u cynnal i nodi addasrwydd y safle ar gyfer adeiladu adeiledd niwclear newydd yn ôl meini prawf asesu lleoliad strategol gwreiddiol Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2008. Gwnaed gwaith hefyd sy'n dangos y gallai'r llyn oeri adweithyddion dŵr ysgafn yn uniongyrchol hyd at oddeutu 600 MWe a chysylltiad grid o ryw 1000 MWe.

Astudiwyd materion sy'n ymwneud â'r seilwaith trafndiaeth hefyd. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu economaidd yng Nghymru ac ers mis Ebrill 2019, gall roi caniatâd i projectau cynhyrchu

trydan hyd at 350MW. Mae synergedd rhwng datblygu adweithydd bach yn Nhrawsfynydd â gallu Prifysgol Bangor ym maes ymchwil a datblygu, ei Pharc Gwyddoniaeth Menai (M-SPARC), Canolfan Gweithgynhyrchu Uwch-Cymru ar Lannau Dyfrdwy ac Arc Niwclear y Gogledd Orllewin ehangach (gan gynnwys Urenco cyfleuster yn Capenhurst, cyfleusterau cynhyrchu tanwydd Westinghouse yn Springfields a sgiliau ehangach cymuned Sellafield yn Cumbria). Mae'n cynnig cyfle i gadwyn gyflenwi Cymru - Fforwm Niwclear Cymru a'r gadwyn gyflenwi ehangach yn ardal Nwana.